

Cytundeb Comisiwn Bevan a Llais

Rhagarweiniad

Pwrpas y cytundeb hwn yw gosod fframwaith i gefnogi perthynas waith newydd rhwng Comisiwn Bevan a Llais¹ (y sefydliadau).

Mae'r berthynas waith hon wedi'i sefydlu i alluogi a chyflymu ymgysylltiad y cyhoedd â gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae'n darparu fframwaith i wella ymgysylltiad, datblygu nodau ac amcanion ar y cyd, parch a chyd-ddealltwriaeth a bydd yn cynorthwyo'r sefydliadau i gyflawni eu hamcanion.

Mae llwyddiant y Cytundeb hwn yn dibynnu ar ymrwymiad ar y cyd y sefydliadau. Bydd y Cytundeb yn adeiladu ar y berthynas waith bresennol, gan alluogi'r sefydliadau ymhellach i rannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau.

Mae'r Cytundeb hwn yn ddatganiad clir o ymrwymiad y sefydliadau i gydweithio, gan ddefnyddio cryfderau pob sefydliad, gan greu synergedd i helpu i lywio a llunio atebion sy'n canolbwyntio ar bobl ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Cytundeb hwn yn cydnabod natur ddeinamig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r heriau annisgwyl y maent yn eu hwynebu. Mae'n cydnabod yr angen i addasu a bod yn hyblyg i amgylchiadau newidiol wrth iddynt ddatblygu.

Cyd-destun

Rydym yn byw ac yn gweithio mewn tirwedd economaidd, geowleidyddol ac ôl-bandemig gymhleth ac ansicr, sydd wedi effeithio'n arbennig ar wasanaethau iechyd a gofal pobl.

Mae'r ffordd yr ydym yn cadw'n iach, ac yn cael mynediad at ofal, wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn aml y bobl hynny yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed sy'n cael eu heffeithio fwyaf, gan ehangu anghydraddoldebau a disgwyliad oes mewn llawer o feysydd. Amlygwyd hyn yn adroddiad diweddar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach?'

Roedd 'Sgwrs gyda'r Cyhoedd' a 'Y Sylfeini ar gyfer Model Iechyd a Gofal y Dyfodol yng Nghymru' Comisiwn Bevan, yn cryfhau ymhellach yr hyn a glywodd Llais (ac yn parhau

¹ Llais yw enw gweithredol Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru.

i'w glywed): bod pobl eisiau newid, a'u bod yn barod i groesawu'r newid hwn a chwarae eu rhan.

Nawr yw'r amser ar gyfer gweithredu.

Mae'r cynnydd tuag at newid systemig, yn enwedig integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, atal, meddwl am yr hirdymor ac atebion yn y gymuned yn rhy araf. Mae rhwystredigaeth hefyd yn parhau o ran pobl sy'n cyrchu gofal sylfaenol, yn aros am driniaeth, ac yn cyrchu gwasanaethau ar ôl arhosiad yn yr ysbyty.

Mae mwy a mwy o deuluoedd yn gofalu am eu hanwyliaid, yn aml ar fyr rybudd, neu'n ifanc ac mae angen mwy o gefnogaeth arnynt i wneud hyn.

Mae angen i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gydnabod yr heriau, bod achos brys dros newid, ac na allant ei wneud ar eu pen eu hunain. Rhaid i bobl a chymunedau Cymru fod yn rhan o greu system sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n ymateb i anghenion amrywiol Cymru.

Egwyddorion y cytundeb

Ategir y Cytundeb gan gytundeb ar y cyd o'r egwyddorion:

Parch, Gonestrwydd, Uniondeb a Chydweithio.

Bydd cadw at yr egwyddorion hyn yn sicrhau:

- Parch a gwerthfawrogiad o gyfraniad y ddau sefydliad.
- Parch at annibyniaeth y ddau sefydliad.
- Agoredrwydd a gonestrwydd trwy gyfathrebu.
- Gweithredu prosesau teg a thryloyw.
- Cydweithio a chyda chymunedau a sefydliadau i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gweledigaeth

Cyfuno mewnwelediadau, arbenigedd, a rhwydweithiau'r sefydliadau i sicrhau bod lleisiau pobl ledled Cymru nid yn unig yn cael eu clywed ond hefyd yn cael eu cynnwys a'u clywed yn weithredol wrth nodi anghenion a dod o hyd i atebion darbodus a chynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol.

Amcanion

1. Defnyddio'r themâu allweddol a nodwyd yng ngwaith diweddar y ddau sefydliad fel sail ar gyfer adeiladu rhaglen waith 3 blynedd sy'n parhau'r sgwrs gyda phobl Cymru am y system iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.
2. Defnyddio ein cryfderau cyfunol i ddod â phobl, cymunedau, a phob sector ynghyd i gydnabod yr angen brys a chyflymu'r cynnydd tuag at Gymru Iachach
3. Ymgysylltu a chynnwys pobl, cymunedau, a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru yn rhagweithiol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r heriau a'r cyfleoedd.
4. Blaenoriaethu ymdrechion i ddatblygu perthnasoedd dibynadwy a rhwydweithiau helaeth gyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, i sicrhau bod ymgysylltu, strategaethau ac atebion yn gynhwysol ac yn adlewyrchu anghenion poblogaeth Cymru ac yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd.
5. Ymrwymo i adeiladu ein gallu ar y cyd trwy rannu adnoddau, hyfforddiant ar y cyd, ac ymchwil gydweithredol, gan drosoli ein cryfderau cyfun i gael mwy o effaith.
6. Datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr i wella tryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd, rhanddeiliaid, a chymunedau, gan sicrhau bod ein cyflawniadau a'n heriau yn cael eu rhannu'n agored.

Rôl Comisiwn Bevan

Comisiwn Bevan yw prif felin drafod iechyd a gofal annibynnol Cymru. Eu gweledigaeth yw gweld gwasanaeth iechyd a gofal cenedlaethol darbodus a chynaliadwy, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, sy'n diwallu anghenion pawb yng Nghymru ac sy'n parhau i fod yn driw i'w werthoedd gwreiddiol, fel y sefydlwyd gan sylfaenydd y GIG, Aneurin Bevan. Maent yn herio meddwl ac ymarfer ym maes iechyd a gofal, gan greu symudiad cynyddol ar gyfer newid gyda'r bobl yn y system a'r rhai sy'n defnyddio'r system. Maent yn herio, yn newid ac yn hyrwyddo i dyfu ac ymgorffori'r mudiad hwn o fewn a rhwng sefydliadau a chymunedau.

Cenhadaeth Comisiwn Bevan ywarwain a chefnogi meddwl a gweithredu trawsnewidiol o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt drwy; dylanwadu ar bolisi; annog a chefnogi arfer darbodus; ac arwain a chefnogi meddwl trawsnewidiol ac arloesi a hwyluso mabwysiadu a lledaenu syniadau a ffyrdd newydd o weithio. Ei flaenoriaethau strategol ar gyfer 2022 – 2026 yw:

- Gwasanaeth iechyd a gofal cenedlaethol, integredig yn seiliedig ar yr egwyddorion darbodus.
- Cymru'r un mor iach â chyfoethog (iach): model poblogaeth gymdeithasol ar gyfer iechyd a lles.

- Arweinyddiaeth, gweithlu, systemau a meddwl o ansawdd uchel.
- Iechyd cynaliadwy trwy atebion sy'n ddiogel yn yr hinsawdd.
- Meithrin trawsnewid, arloesi, mabwysiadu a lledaeniad.

Er mwyn cefnogi gweithrediad y Cytundeb bydd Comisiwn Bevan yn:

- Dod â chlod a hygrededd y Comisiwn i gefnogi gwaith ar y cyd.
- Darparu arbenigedd ac arweiniad ar bolisi iechyd a gofal cymdeithasol, ymgysylltu â'r cyhoedd, dylunio systemau.
- Hwyluso mynediad i randdeiliaid allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Cyd-arwain, nodi adnoddau, a chefnogi rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt.
- Darparu cyngor ac arbenigedd i lywio ymchwil a datblygiad.

Rôl Llais

Mae Llais, a ffurfiwyd ym mis Ebrill 2023, yn gorff statudol annibynnol a'i ddiben yw cynrychioli buddiannau gorau'r bobl sy'n byw yng Nghymru mewn perthynas â'u gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gweledigaeth Llais yw cefnogi pobl Cymru i gael mwy o lais wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae gan Llais 3 maes gweithgaredd craidd:

- Gweithio gyda phobl, cynrychiolwyr cymunedol a grwpiau ym mhob rhan o Gymru i glywed barn a phrofiadau pobl leol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Rhannu'r hyn y maent yn ei glywed gyda'r GIG, awdurdodau lleol, a llunwyr penderfyniadau eraill i sicrhau bod barn a phrofiadau pobl yn gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb.
- Pan aiff pethau o chwith, cefnogi pobl i wneud cwynion.

Mae gwaith Llais yn cael ei yrru gan flaenoriaethau pobl Cymru, gan sicrhau bod anghenion a phrofiadau poblogaeth amrywiol Cymru yn cael eu cynrychioli. Mae Llais wedi datblygu eu blaenoriaethau strategol drafft ar gyfer 2024 – 2027, sef:

1. Ysgogi sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
2. Gwthio am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb.

3. Cydweithio'n well.
4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.
5. Tyfu a gwella fel sefydliad.

I gefnogi gweithrediad y Cytundeb, bydd Llais yn:

- Hyrwyddo llais pobl Cymru gan sicrhau bod eu buddiannau gorau yn cael eu cynrychioli.
- Defnyddio ei bwerau cynrychioli cyfreithiol sylweddol i sicrhau bod cyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol yn rhoi sylw dyledus i sylwadau wrth arfer unrhyw swyddogaeth y mae'r sylwadau'n ymwneud â hi.
- Hwyluso mynediad at ei rwydweithiau cyhoeddus helaeth, gan gynnwys cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, i ymgysylltu â phobl leol mewn digwyddiadau, rhaglenni a chamau gweithredu yn y dyfodol.
- Darparu arbenigedd ac arweiniad ar bolisi iechyd a gofal cymdeithasol, ymgysylltu â'r cyhoedd, a newid gwasanaethau.
- Cyd-arwain, nodi adnoddau, a chefnogi rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt.

Fframwaith Cydweithio

Cynllunio: Datblygu rhaglen waith 3 blynedd a gaiff ei hadolygu'n flynyddol gan y ddau sefydliad.

Cyfarfodydd: Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod gwaith parhaus, rhannu cynnydd a mewnwelediadau.

Adrodd a gwerthuso: Mae'r sefydliadau'n ymrwymo i adrodd a gwerthuso'r rhaglen yn dryloyw er mwyn asesu effaith a llywio cydweithredu yn y dyfodol.

Metrigau ar gyfer llwyddiant a mesur effaith: Bydd y sefydliadau'n diffinio metrigau clir, mesuradwy ar gyfer llwyddiant ac effaith, gan sicrhau bod ymdrechion cydweithredol yn fesuradwy ac yn gyson ag amcanion a rennir.





Proses adolygu ac adnewyddu ffurfiol: Bydd y cytundeb yn mynd trwy broses adolygu ffurfiol ar ddiwedd tair blynedd, gan ymgorffori adborth gan randdeiliaid, gan werthuso ein cyflawniadau yn erbyn metrigau diffiniedig.

Casgliad

Mae'r Cytundeb hwn yn gytundeb arwyddocaol ac yn symbol gweladwy o ymrwymiad y sefydliadau i gydweithio mewn partneriaeth i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â'r heriau brys sy'n wynebu'r sector iechyd a chymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r ddau sefydliad yn dymuno ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd ar y themâu hyn, gan eu hannog i rannu eu profiadau bywyd fel y gall y ddau sefydliad rannu a defnyddio'r wybodaeth hon i ymgysylltu, hysbysu a chefnogi newid cynaliadwy, arloesol a thrawsnewidiol ar draws gwasanaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Y partïon i'r cytundeb hwn yw:

Sefydliad Partner	Logo	Cadeirydd	Llofnod	Dyddiad
Comisiwn Bevan		Y Farwnes Ilorá Finlay		24 Ebrill 2024
Llais		Yr Athro Medwin Hughes		24 Ebrill 2024

Mae'r Cytundeb hwn yn weithredol o ddyddiad y llofnod olaf uchod a bydd yn parhau mewn grym am 3 blynedd, a bydd yn cael ei adolygu a'i adnewyddu bryd hynny. Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Cytundeb gyda rhybudd [cyfnod o rybudd], wedi'i ddarparu'n ysgrifenedig.